



Annwyl Ms de-Courcey a Ms MacFarlane,

Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Fynwy – Diweddariad Rhaglen Waith y Cwestiynau Cychwynnol

Yn dilyn gohebiaeth flaenorol, dyddiedig 15^{fed} Rhagfyr 2025, mae'r llythyr hwn yn rhoi diweddariad ar raglen waith y Cyngor hyd yma i fynd i'r afael â chwestiynau cychwynnol yr Arolygwyr ynghylch y mater o effaith datblygiad arfaethedig ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae'r rhaglen waith lawn, gan gynnwys diweddariadau cynnydd, wedi'i hatodi i'r llythyr hwn.

Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â sefydliadau amrywiol, gan gynnwys CNC, Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru, i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Yn ogystal, mae AECOM wedi'i benodi'n ffurfiol i gefnogi'r gwaith ychwanegol y gofynnwyd amdano, gyda chyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal ar 7^{fed} Ionawr 2026 i gadarnhau/cytuno ar gwmpas y gwaith a'r amserlenni. Mae cyfarfodydd cynnydd bob pythefnos wedi'u trefnu i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt. Mae cam cychwynnol y gwaith wedi dechrau – mae hyn yn cynnwys cyfrifiadau cyllideb, gan ddefnyddio'r gyfrifiannell ddiweddaraf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a fydd yn helpu i bennu llwyth ffosffad gweddilliol y dyraniadau CDLIN arfaethedig yn y dalgylchoedd yr effeithir arnynt. Disgwylir i'r cyfrifiadau cyllideb gael eu cwblhau erbyn diwedd Ionawr 2026, a bydd eu canfyddiadau yn llywio cam nesaf y rhaglen waith - ymchwilio i opsiynau lliniaru lefel uchel i wrthbwyso unrhyw ffosffadau gweddilliol sy'n gysylltiedig â'r dyraniadau CDLIN arfaethedig. Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau paratoi datganiad sefyllfa ar y materion a godwyd. Darperir diweddariad pellach ar y rhaglen waith w/c 9^{fed} Chwefror 2026.

Yn dilyn gohebiaeth flaenorol yn nodi y bydd yr archwiliad yn mynd rhagddo ar ôl diwedd y cyfnod atal presennol (h.y. 23^{ain} Chwefror 2026), a fyddai'n bosibl darparu arwydd o ddyddiadau tebygol ar gyfer y sesiynau gwrandawriad er mwyn galluogi'r Cyngor i reoli adnoddau, gan gynnwys swyddogion ac ymgynghorwyr mewnol, ac ymrwymïadau gwyliau blynyddol.

Yn gywir, Andrew

Jones
Pennaeth Cynllunio/Head of Planning

Hysbysiad Preifatrwydd Polisi cynllunio:

<https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/eich-preifatrwydd/preifatrwydd-eich-cyngor/>

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg neu'r ddau, a bydd yn ymateb i chi yn ôl eich dewis. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Rhaglen Waith: Dull Gweithredu, Methodoleg a Chynnydd

Tasg	Amserlen	Cynnydd hyd yma
1 Cychwyn a chyfarfodydd cynnydd gyda'r ymgynghorydd	Dechrau Ionawr 2026	Cynhaliwyd y cyfarfod cychwynnol ar 07.01.2026. Cyfarfodydd cynnydd bob pythefnos wedi'u trefnu.
2 Cyfrifiadau cyllideb a chynnydd mewn capasiti a gynhyrchir gan welliannau Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Bydd cyfrifiadau'r gyllideb yn cael eu cynnal gan ddefnyddio'r gyfrifiannell ddiweddaraf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cwmpasu dalgylchoedd Afon Wysg ac Afon Gwy, er mwyn rhoi hyder y gellir datblygu'r maint o ddatblygiad a gynigir mewn unrhyw safleoedd a ddyrannwyd neu a ymrwymwyd mewn ardaloedd lle mae cyfyngiadau niwtraliaeth maetholion yn berthnasol, ac a oes angen unrhyw liniaru ychwanegol uwchlaw'r hyn a ddarperir drwy dynhau terfynau trwyddedau ffosfforws mewn rhai Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff. Yn unol â cheisiadau'r Arolygwyr, bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno fel a ganlyn: • Rhagolwg cynnydd mewn cyfeintiau ffosfforws (P) bob blwyddyn o'r CDLIN ym mhob dalgylch ACA drwy wneud rhagdybiaethau rhesymol ar gyfer unedau/gofod llawr, graddio, adeiladu allan a meddiannaeth. • Cyfanswm cyffredinol y llwythi i'w datblygu yn nalgylchoedd Afon Wysg ac Afon Gwy ar gyfer pob blwyddyn o'r CDLIN. • Enw'r Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff perthnasol, terfynau trwydded arfaethedig presennol neu yn y dyfodol a sut mae unrhyw gapasiti ffosfforws a nodwyd yn ymwneud â'r gofynion niwtraliaeth maetholion ar gyfer y dalgylch y mae'r Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff yn ei wasanaethu (h.y. a oes capasiti wedi'i ryddhau sy'n caniatáu i'r holl ddatblygiadau ddod ymlaen fel y cynlluniwyd yn y CDLIN neu a oes problemau graddio posibl neu angen lliniaru ychwanegol ar unrhyw adeg neu leoliad).	Cwblhau diwedd Ionawr 2026	Dechreuodd gwaith cyfrifo'r gyllideb ym mis Ionawr 2026. Wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ionawr 2026.
3 Ymchwilio i opsiynau lliniaru lefel uchel Lle nodir y byddai llwythi ffosfforws ychwanegol yn codi (er gwaethaf gwelliannau Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff) oherwydd datblygiadau yn y CDLIN, bydd angen lliniaru ychwanegol i wrthbwysu'r cynnydd. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi ar lefel uchel i'r ystod o fesurau lliniaru amgen ac ychwanegol y gellir eu hystyried er mwyn gwneud yr holl ddatblygiadau arfaethedig yn niwtral o ran maetholion.	Wedi'i gwblhau erbyn 23^{ain} Chwefror 2026	

Tasg	Amserlen	Cynnydd hyd yma
Bydd hyn yn cynnwys rhai enghreifftiau o sut y gellid lliniaru unrhyw ffosfforws gormodol gweddilliol (yn ôl blwyddyn CDLIN a dalgylch). Ar y cam hwn ni fyddai'n ddatblygiad/safle penodol ond byddai'n darparu arwydd o ba raddfa o liniaru y gallai fod ei angen a chostau bras. Bydd perthnasedd posibl dyraniadau safleoedd cyflogaeth i gyfrannu llwyth maetholion i'r safleoedd ACA yn cael ei ystyried, ynghyd ag ystyried dyfarniad diweddar CG Fry & Sons Ltd v SSHCLG [2025] UKSC 35 sy'n ymwneud â datblygiadau ymrwymedig.		
4 Gan adlewyrchu canlyniadau'r tasgau uchod, diweddarwch y canlynol yn ôl yr angen: • Cynllun Cyflawni Seilwaith. • Fframwaith polisi CDLIN. Adolygu polisiâu CDLIN Adneuo perthnasol, nodi unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen ac, os oes angen, paratoi atodlen o newidiadau arfaethedig i'r CDLIN. • Asesiad hyfywedd lefel uchel i gyfrif am unrhyw liniaru ychwanegol sydd ei angen. • ARhC – ymgynghori â CNC ar unrhyw ddiweddariadau arfaethedig.	Wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ebrill 2026	
5 Papur Esboniadol/Cefndir a Chynllun Gweithredu Lliniaru Lefel Uchel Paratoi papur esboniadol/cefndir i ddod â chanfyddiadau'r tasgau uchod at ei gilydd ac egluro safbwynt y Cyngor ynghylch y materion a godwyd. Paratoi cynllun gweithredu lliniaru (sy'n nodi opsiynau lliniaru lefel uchel i'w cytuno yn y Cam Rheoli Datblygu).	Wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ebrill 2026	